

## OWEN, DAVID (bu farw 1765), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Felinfoel -

**Enw:** David Owen  
**Dyddiad marw:** 1765  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Benjamin George Owens

Daeth yn weinidog ei fam-eglwys ar achlysur ymweliad y gymanfa yn 1735, er y tybir ei alw i bregethu a'i ordeinio tua 10 mlynedd ynghynt, a galwyd ef yr un pryd i gynorthwyo'r eglwys wag yn Abertawe. Bu ei weinidogaeth yn llewyrchus dros ben, a chafodd yr anrhydedd o bregethu yn y gymanfa yn 1741 a 1758. Y mae ganddo emynau yn *Llyfr o Emynau* (Caerfyrddin, 1740).

Bu farw 19 Ionawr 1765 yn 72 oed, a'i gladdu ar bwys y capel.

### Awdur

Benjamin George Owens

### Ffynonellau

*Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778), (arg. 1885), 515

B. Humphreys, *Hanes Bedyddwyr Felinfoel: Cyfrol goffa dau can mlwyddiant, 1709-1909* (Llanelli 1909), 77-8

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732877](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



#### Arddull APA



Owens, B. G., (1953). OWEN, DAVID (bu farw 1765), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Felinfoel. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-DAV-1765>



LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government